

Dydw i ddim wedi defnyddio AI.

Ymchwil mewn i'r pwnc- Ydy bod mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar effeithiolrwydd ymyrraeth ADY?

Rhan 1- Adolygiad Llenyddiaeth

Gall plant ag anghenion ychwanegol ac anawsterau dysgu gael mwy o drafferth wrth ddysgu sgiliau newydd na'r rhan fwyaf o blant yr un oedran ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt wrth ddysgu pethau newydd (Cyngor Abertawe, 2023). Yn ôl Cyngor Casnewydd (dim dyddiad), Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yw derm sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn ddisgrifio anhwystrau addysgol neu anableddau sydd yn gwneud hi'n fwy anodd i blentyn i ddysgu wrth cymharu â phlant arall yr un oedran. Fel arfer, mae angen mwy o gymorth ar y plant yma i ddysgu.

Er mwyn cefnogi'r plant yma yn yr ysgol, mae Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), yn creu cynllun i'r plant yma fel bod athrawon gallu darparu addysg addas iddynt er mwyn hybu anghenion ac unrhyw anhwystrau. Rhaid i bob ysgol brif ffrwd yng Nghymru dynoddi person fydd yn gyfrifol am gydlyn cymorth i blant ag anghenion ychwanegol (Cyngor Abertawe, 2023). Mae CADY yn sylfaenol i ysgolion er mwyn helpu plant derbyn y cefnogaeth angenrheidiol sydd angen arnynt. Er mwyn datblygu'r cynlluniau yma, fel arfer, caiff plentyn ei arsylwi gan Seicolegydd Addysgol, sydd yn defnyddio beth maent yn dysgu mewn arsywadau a chyfarfodydd gyda gweithwyr allweddol a rhieni, i ffeindio diagnosis i'r plentyn. Bydden nhw wedyn yn gweithio'n agos gyda'r CADY i greu cynllun sydd yn elwa'r plentyn.

Mae CADY yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol trwy darparu cynllun datblygiad personol, sydd yn galluogi staff yr ysgol a staff cyflenwi i adnabod pa dechnegau sydd yn helpu'r plentyn. Caiff y cynlluniau yma ei ddefnyddio er mwyn cynllunio ymyrraeth, gwaith a gweithgareddau'r dosbarth. Ymyrraeth yw'r hyn sydd yn cael ei gwneud gyda'r plant sydd ag anghenion. Fel arfer, y cynorthwywyr dosbarth sydd yn gwneud yr ymyrraeth o fewn y dosbarth fel ffordd o gefnogi'r athro/athrawes. Pwrpas ymyrraeth yw i darparu cymorth ychwanegol i'r plant sydd angen mwy o gymorth i 'ddal lan' gyda plant sydd â cyrhaeddiad uwch (Education Endowment Foundation, 2021). Un o rwystrau ymyrraeth yw iaith.

Os caiff plentyn ADY addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n fosisb fod cafael iaith yn anoddach iddynt. Dywed erthygl 30 o'r Confensiwn Cenhedlaeth Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP), bod hawl i bob plentyn defnyddio iaith ei hun (CCUHP, dim dyddiad). Gyda tro, mae hwn yn ystyried bod ymyrraeth yn cael ei darparu mewn iaith fydd y plentyn yn deall y fwyaf. Ar cynlluniau datblygiad plant yn yr awdurdod Castell-nedd Port Talbot, mae colofn i esbonio pa iaith yw'r fwyaf addas ar gyfer pethau penodol. Trwy cyflawni ymyrraeth mewn iaith mae'r unigolyn yn deall yn well, mae'n fwy debygol fydd y plentyn yn elwa'n fwy wrth cael sesiynau ymyrraeth.

Fel mai ar hyn o'r bryd, does dim llawer o wybodaeth ynglyn ag effeithiolrwydd ymyrraeth tra'n cymharu ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Fodd bynnag, dangosir ymchwil bod plant amlieithog yn cael eu gor-ddiagnosisio a ddan-diagnosisio gyda cyflyrau niwroddatblygiadol (Yamasaki a Luk, 2018).

Mewn papur ysgrifennwyd gan Howard *et al.* (2020), dangosir canlyniadau wrth cyfweliadau lled-strwythedig bod gan ymarferwyr proffesiynol pryderon ynlyn â dichonoldeb amlieithrwydd i rhai disgyblion sydd ag awtistiaeth. Yn ystod y cyfweliadau yma, dadleuen nhw bod aramlyigad i ddwy iaith yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad.

Caiff y ffiniau rhwng polisïau ADY, Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) a diffyg hyfforddiant penodol effaith ar ddarpariaeth cymorth i ddysgwyr sydd yn wahanol yn ieithyddol ac yn niwroamrywiol (Howard *et al.*, 2020). Yn ogystal a hyn, mae diffyg asesiadau ac adnoddau yn nghyfrwng y Gymraeg i gefnogi plant ag ADY. Fel canlyniad, meddylia hwn bod plant yn aml yn cael asesiad yn y Saesneg, a gall ymatebion cael ei gamddehongli oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r iaith Cymraeg (Griffiths M, 2024).

Yn ôl rhifau Sensws 2025, mae'r nifer o blant sydd ag ADY ar cynllun datblygiad personol ysgol wedi cynyddu o 3.4% o blant yn 2024, i 4.9% o blant yn 2025 (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn ogystal a hyn, dangosir y ffigurau, bod y problem mwyaf o rhan ADY ar hyn o'r bryd yw anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, gyda 15,875 o blant yn cael diagnosis. Mae gan yr anawsterau yma cyswllt i theori Bruner, sy'n credu bod pwysleisio rôl iaith a chyfathrebiad mewn addysg yn galluogi ymarferwyr i gefnogi plant gyda anawsterau ADY yma mewn ffordd llwyddiannus.

Oherwydd y ddiffyg adnoddau yn y Gymraeg, meddylia hwn bod athrawon a staff ysgol yn defnyddio mwy o amser yn creu adnoddau ymyrraeth, lle gall yr amser i gyd cael ei defnyddio ar gyfer mwy o ymyrraeth. Gall hwn cael effaith negyddol ar canlyniadau effeithiolrwydd ymyrraeth. Hefyd, trwy edrych ar ffigurau'r sesnws o Ionwr 2025, gallwch cymharu nifer o athrawon cymwysiedig a staff cynorthwyol ysgolion o 2023 hyd nawr. Dangosir y data bod gostyniad niferoedd yn y ddwy grwp. Yn 2023, roedd yna 24,884 o athrawon cymwysiedig yng Nghymru, a 25,812 o staff cynorthwyol. Ers hyn, mae'r rhifau wedi gostwng yn raddol, ac erbyn sensws Ionawr 2025, roedd 23,729 o athrawon cymwysiedig yng Nghymru, a 24,233 o staff cynorthwyol.

Rhan 2- Ystyriaethau methodolegol

Ystyriaethau methodolegol yw derm sydd yn cael ei defnyddio er mwyn esbonio pa fath o strwythur neu fframwaith sydd yn cael ei defnyddio er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil (Stapleton A, 2024). Er mwyn ateb y cwestiwn, bydd yr ymchwil yma yn derbyn atebion mewn ffordd ansoddol a meintiol. Gelwir hwn, dull trionli. Fel dywed Roberts-Holmes (2018), triongli yw'r dull ymchwil o gymharu a chyfuno ffynonellau gwahanol er mwyn ehangu dealltwriaeth ar bwnc. Mae'r dull triongli yn rhoi dilysrwydd ymchwil ac yn gwneud i'r canfyddiadau edrych yn fwy argyhoeddiadol.

Data ansoddol yw darganfod atebion mewn ffordd sydd ddim yn gysylltiedig i rhifau ac ystadegau (National Library of Medicine, 2022). Fel arfer, caiff y data yma ei gasglu trwy cynnal cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Bydd yr ymchwil yma yn casglu data ansoddol trwy holi holi cwestiynau sydd yn cael atebion llafar yn hytrach na ffigurau ac ystadegau.

Data meintiol yw dargnafod atebion trwy edrych ar rhifau ac ystadegau (Australian Bureau of Statistics (dim dyddiad). Er mwyn cadw cymaint o gyfrinachedd sy'n bosib, bydd yr ymchwil yma hefyd yn casglu data meintiol, trwy holi cwestiynau am niferoedd gwahanol o bethau. Caiff yr atebion yma ei cofnodi mewn ffordd rhifedd neu ar dabl a graff.

Bydd yr ymchwil yma'n cynnal cyfweiliadau gyda CADY ysgolion Cymraeg a Saesneg o fewn yr awdurdod Castell-Nedd Port Talbot. O fewn yr awdurdod yma, mae 9 ysgol gynradd Cymraeg, a 3 ysgol cyfan Cymraeg (3 oed i 16). Hefyd yn yr awdurdod, mae 52 o ysgolion gynradd Saesneg. Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yma'n deg, bydd yr ymchwil yma yn cynnal cyfweiliadau gyda CADY pob ysgol gynradd Cymraeg, ac 12 ysgol gynradd Saesneg. Er mwyn adeiladu ar y tegwch, bydd 9 ysgol gynradd Saesneg cyfan yn cael ei cynnwys yn yr ymchwil, a 3 ysgol cyfan Saesneg (3 oed i 16).

Bydd yr ymchwil yma'n ffocysu ar CADY ysgolion gwahanol, gan taw nhw fydd a'r mwyaf o wybodaeth ynglyn â ADY yn yr ysgol. Mae'n bosib i gynnal cyfarfodydd dros y ffôn, mewn person neu dros fideo. Dyma mantais o ddefnyddio cyfweiliadau. Does dim angen cymaint o drefn er mwyn cynnal cyfweiliad. Ni fydd arsylwadau yn effeithiol yn yr ymchwil yma gan bod angen gwybodaeth yn unig. Yn ogystal a dim ond angen gwybodaeth, bydd arsylwi ar blant ddim yn bwysig i'r ymchwil gan fod posibilrwydd o'r effaith Hawthorne. Yn ôl The Open University (dim dyddiad), effaith Hawthorne yw pryd mae rhywun yn newid ymddygiad oherwydd maent yn ymwybodol ei bod yn cael ei arsylwi neu ei gwyllo. Er bod hyn gallu cael effaith negyddol ar yr ymchwil, ni fydd arsylwi ar blant yn addas ar gyfer ateb y cwestiwn ymchwil uchod.

Bwriad yr ymchwil yn fras, yw i darganfod pa strategaethau sydd gan ysgolion mewn lle er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY. Mae'r ymchwil eisiau darganfod beth sydd yn digwydd yn yr ysgolion ar sail ymyrraeth. Caiff cwestiynau ei holi ynglyn a faint o ymyrraeth sydd yn digwydd pob dydd, wythnos a tymor. Bydd yr ymchwil yn defnyddio'r gwybodaeth hyn i gymharu a gwrthgyferbynnu gyda data arall wrth ysgolion gwahanol i weld os oes gwahaniaeth yn yr effeithiolrwydd achos iaith, neu os taw diffyg amser ymyrraeth sydd yn cael effaith.

Er mwyn dod o hyd i mwyafrif o wybodaeth posib, bydd y gyfweiliadau yn strwythedig a lled-strwythedig. Bydd yr ymchwil yma'n agored i newid ychydig o gwestiynau, yn dibynnu ar rhai atebion. Ar y cyfan, bydd cyfweiliadau yn ffordd da o gael y wybodaeth sydd angen er mwyn casglu data ansoddol oherwydd mae'n galluogi elfen ychwanegol i'r ymchwil lle gall emosiwn dod i mewn a mewn tro, gall hwn dangos os yw'r problemau a rhwystrau sydd wedi trafod mewn rhan un yn broblemau lleol, neu os yw'r iaith gwahanol yn cael effaith ar effeithiolrwydd ymyrraeth oherwydd diffyg adnoddau ac anawsterau cafael iaith ac yn y blaen.

Bydd yr ymchwil yn holi cwestiynau yn seiliedig ar anghenion plant yr ysgol. Bydd hi'n hawdd cadw cyfrinachedd a parchu'r plant trwy peidio defnyddio enwau plant o gwbl. Trwy peidio defnyddio enwau plant yn yr ymchwil o gwbl, bydd hyn yn manteisio'r ymchwil oherwydd mae'n ganolog i'r plentyn. Mae gofyn cwestiynau ynglyn a hwn yn effeithiol oherwydd mae'n galluogi'r ymchwil i fod yn llwyddiannus gan bod cwestiynau yn cael ei ofyn yn seiliedig a'r cwestiwn ymchwil.

Anfantais cyfweiliadau lled-strwythedig yw'r ffaith bod y cwestiynnau'n gallu ateb rhywbeth, ond methu cyffredinoli ar bwnc. Modd bynnag, gall cyfweiliadau lled-strwythedig uwchleuo materion diddorol sy'n gallu helpu'r ymchwil a codi pwyntiau ychwanegol.

Trwy cynnal cyfweiliadau o fewn un awdurdod, mae'n debygol bod yr atebion yn debyg oherwydd ffactorau gwahanol, gan gynnwys tlodi. Er hyn, mae'r sampl yma'n un debygolrwydd oherwydd mae'r cwestiynau wedi gosod a mae'r un fath o ateb yn disgwyledig gan bawb. Trwy gofyn cwestiynau ynglyn a niferoedd o blant sydd ag anghenion gwahanol, a'r anghenion gwahanol, mae'n bosib i driongli digwydd fan hyn, lle mae data meintiol a data ansoddol yn cael eu casglu er mwyn dod o hyd i un ateb. Trwy cyfweld â 22 CADY, dyle fod digon o atebion a wybodaeth er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil. Gobaith y cyfweiliadu yw i gael ystad eang o atebion ynlyn a ffactorau gwahanol sydd yn effeithio ar ymyrraeth mewn ysgolion Cymraeg.

Er mwyn casglu mwy o ddata, mae'n bosib cyfweld awdurdod gwahanol, i weld os oes gan awdurdodau gwahanol yr un rhwystrau a Castell-Nedd Port Talbot. Trwy agor yr ymchil i awdurdodau gwahanol, bydd mwy o ddata i ateb y cwestiwn, a hefyd, mae'n bosib gweld os oes gwahaniaeth oherwydd tlodi, neu'r defnydd o iaith. Mae mwy o bobl yng Ngogledd Cymru yn siarad Cymraeg wrth cymharu a'r De

(Llyowdraeth Cymru, 2024). Er bydd hwn yn galluogi'r ymchwil i derbyn mwy o wybodaeth, ni fydd hwn yn gweithio'n effeithiol gan bod awdurdodau gwahanol ddim yn dilyn yr un strwythrau o rhan creu cynllun datbylgriad i blentyn, felly dyma un o'r cyfyngiadau cadw'r sampl yn fach ac o fewn un awdurdod. Os oes angen ehangu, bydd hi'n gwneud fwy o synhwyr, i symyd i'r awdurdod nesaf, yn yr achos yma, Abertawe.

Trwy cynnal cyfweiliadau lled-strwythedig, bydd hyn yn galluogi'r ymchwil i gofnodi atebion ar bapur yn gyflym, enwedig os oes cwestiwn yn cael ei ehangu. Trwy cofnodi'r atebion ar bapur, mae'n hawsach cadw cyfrinachedd oherwydd dim ond un person sydd yn rhoi ateb ar y tro, a does dim angen plant, felly does dim angen caniatâd rhieni er mwyn cymryd fideo, neu hyd yn oed cyfweld nhw. Bydd hyn hefyd yn achub amser gan taw dim ond un aelod o staff bydd yn cael ei cyfweld ym mhob ysgol. Bydd cyfrinachedd hefyd yn hawsach oherwydd mae'n bosib cadw atebion pawb mewn ffolder a mewn cwpwrdd gyda clo, fel bod dim mynediad gyda unrhyw un arall i'r wybodaeth sydd yn y ffolder.

Un cyfyngiad arall o cynnal cyfweiliadau yw'r effaith Halo. Yn debyg i'r effaith Hawthorne, mae'n bosib fod pobl yn newid atebion er mwyn gwneud iddynt edrych yn well. Yn amlwg, gall hyn cael effaith negyddol ar yr ymchwil trwy pobl yn rhoi'r gwybodaeth anghywir a gall hyn effeithio ar ateb y cwestiwn ymchwil. Os bydd pobl yn yr ymchwil yn newid atebion er mwyn iddynt edrych yn well, gall hyn arwain at cael canlyniadau anghywir ar diwedd yr ymchwil. Gall hyn cael effaith difrifol o ran ystyriaethau moesegol.

Rhan 3- Ystyriaethau moesegol

Ystyriaethau moesegol yw côd ymddygiad yn seiliedig ar parch tuag at yr ymchwilwr, pobl arall ac amgylchedd. Caiff hyn ei lywodraethu gan yr egwyddorion neu'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r ffordd mae unigolion neu sefydliadau fod i cynnal ymchwil (Prifysgol Stirling, dim dyddiad). Mae ymchwil moesegol yn cynnwys y gymhwysiad o egwyddorion angenrheidiol moesegol i weithgareddau ac elfennau o ymchwil sydd yn cynnwys gweithredoedd ymchwil, y defnydd o adnoddau a pharch tuag at gymdeithas.

Dywed Lytle, (2001) bod rhaid i unrhyw ymchwil yn seiliedig ar bobl a sefydliadau cymdeithasol, cynnwys penderfyniadau moesegol. Trwy ymchwilio mewn i'r flynyddoedd cynnar, gall hyn ehangu dealltwriaeth o'r pwnc. Gall cynnal ymchwil gyda plant helpu ymarferwyr ac ymchwilwyr deall beth mae plant yn meddwl am y materion sydd yn effeithio nhw. Ond, mae'n bwysig ystyried bod ymchwil yn cynnwys plant gorfood cydbwysu'r amcanion ymchwil, diogelwch a llesiant y plant, a hefyd parchu hawliau plant trwy deall yr hawliau sydd gyda nhw i gymryd rhan mewn

ymchwil sydd yn effeithio nhw. Trwy darparu'r cymorth cywir a bod yn ymwybodol o bryd i gymryd gweithredoedd gwahanol, gall ymchwilwyr sicrhau bod y plant yn cael eu parchu ac yn cymryd rhan yn ddiogel (NSPCC, 2023).

Mae'n bwysig ystyried problemau ac anawsterau moesegol wrth cynnal ymchwil, enwedig gyda plant, gan ei fod yn fwy bregus nag oedolion. Fel arfer, mae materion moesegol pan yn ymchwilio mewn i'r flynyddoedd canol, yn ganolog i'r plentyn, sydd yn seiliedig â materion diogelwch, parch ac urddas, hawliau plant a sicrhau ei cyfranogiad gwybodus. Mae plant a phobl ifanc llawer mwy fregus i docenistaidd neu hyd yn oed cyfranogiad wedi-i drin mewn ymchwil, yn aml yn anfwriadol. Gall hyn cael effaith negyddol ar canlyniadau gan bod hwn yn meddwl bod atebion ymchwil ddim yn gynrychioliaeth onest o deimladau neu anghenion y gyfranogwr. Mewn tro, gall hyn arwain at y wasanaethau sydd wedi adeiladu er mwyn cwrdd a'r anghenion a'r teimladau yma i fod yn ddiffygiol yn y pen draw (Department of Education, dim dyddiad).

Un o'r pethau mwyaf bwysig i ymchwil sy'n cynnwys pobl arall, yw caniatâd. Cyn mynychu ymchwil, mae rhaid i'r ymchwilwr gofyn caniatâd lleoliad er mwyn mynychu cyfweiliadau neu i gael mynediad i ddata. Mae gofyn am caniatâd fel arfer yn rhoi gwybodaeth addas a ddigonol am yr ymchwil, er mwyn helpi'r cyfranogwyr creu penderfyniad os maent mynd i fod yn rhan o'r ymchwil neu peidio. Hefyd, bydd yr ymchwilwr yn sicrhau nad oes unrhyw orfodaeth penodol neu ymhlyg, fel bod cyfranogwyr yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus a rhydd ynghylch eu cyfranogiad posib (UK Research and Innovation, 2024).

Cyn cynnal unrhyw gwaith ymchwil, mae rhaid cael cael caniatâd gwybous. Meddylia hwn bod angen cofnod wrth y gyfranogwyr er mwyn dangos eu bod yn deall yr ymchwil ac yn fodlon cymryd rhan. Trwy cael caniatâd, mae hwn yn meddwl bod y cyfranogwyr yn deall beth maent yn cofrestru i wneud, sydd yn gallu creu'r sesiwn yn fwy effeithiol. Hefyd, gall caniatâd sicrhau bod yr ymchwil yn foesebol and yn gydymffurfio gyda deddfwriaethau ac egwyddorion diogelu data (Llywodraeth Cymru, 2016).

Ar gyfer yr ymchwil yma, bydd angen derbyn caniatâd wrth ysgolion gwahanol i gwrdd a trafod anghenion ac ymyrraeth. Er bod dim plant yn cael ei defnyddio yn yr ymchwil, caiff data nhw eu defnyddio, felly bydd angen sicrhau bod llythyr caniatâd yn mynd at yr ysgolion, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw caniatâd i darparu'r gwybodaeth. Yn ogystal a hyn, efallai bydd angen creu llythyr i fynd at rhieni fel bod nhw hefyd yn ymwybodol bod ymchwil yn digwydd. Bydd y llythyr yma'n cynnwys y cwestiwn ymchwil, gyda esboniad dwfnach o pam mae'r ymchwil yn digwydd a gwybodaeth cyffredinol am y bwnc. Hefyd, er mwyn sicrhau cysur, bydd y llythyr hefyd yn pwysleisio'r ffaith bod hwn yn wirfoddol, a bod hawl gyda nhw i dynnu mas o'r ymchwil unrhyw bryd.

Os nad yw ysgol eisiau cymryd rhan, mae hwn yn iawn. Bwriad yr ymchwil yw i gyfnewid ag 12 ysgol gynradd Cymraeg, ac 12 ysgol gynradd Saesneg. Os yw ysgol Cymraeg yn penderfynu i beidio cymryd rhan yn yr ymchwil, bydd angen lleihau'r nifer o ysgolion Saesneg yn yr ymchwil. Fel bod derbyn caniatâd yn hawsach, bydd yr ymchwil yma'n cyfathrebu gyda'r ysgolion cyn dod a darparu llythyron caniatâd. Os yw ysgol Cymraeg yn penderfynu dweud na i'r ymchwil, bydd angen gofyn i un ysgol Saesneg yn llai er mwyn cadw'r un tegwch o rhan niferoedd o ysgolion. Os yw ysgol yn penderfynu nad ydyn nhw eisiau cymryd rhan yn yr ymchwil yma, bydd angen gadael i hyn digwydd, a cael gwared ag unrhyw gwybodaeth o'r ymchwil.

Bydd yn hawdd gweld os nad yw ysgol eisiau cymryd rhan, oherwydd bydden nhw'n dweud na. Gan bod yr ymchwil yma'n defnyddio cyfweiliadau, bydd angen ystyried iaith y corff ac emosiwn i weld os nad yw rhywun yn cyfforddus i ateb cwestiwn neu peidio. Trwy darllen iaith y corff yn dda a cael yr ymwybyddiaeth i synhwyro pan fydd rhywun ddim yn gyfforddus, dylai hi fod yn hawdd synhwyro a gwybod pan nad yw rhywun eisiau cymryd rhan

Os yw ysgol yn penderfynu tynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg, bydd hynny'n iawn. Os mae rhywun yn tynnu allan o'r ymchwil cyn derbyn caniatâd llawn i ddechrau'r ymchwil, ni fydd unrhyw gwybodaeth yn cael ei defnyddio o gwbl yn yr ymchwil. Pan fydd rhywun yn tynnu allan o ymchwil ar ôl casglu data i gyd, ond cyn dadansoddi, bydd angen cael gwared a data nhw mor gynteb a phosib o'r ymchwil. Os bydd rhywun yn tynnu allan o'r ymchwil ar ôl casglu data ac ar ôl dadansoddi'r data i gyd, mae hyn hefyd yn iawn, ond bydd angen cael gwared data nhw i gyd o'r dadansoddiad a'r ymchwil i gyd yn gyfan gwbl.

Un o'r moesegau pwysicach yw cyfrinachedd a phreifatrwydd. Cyfrinachedd yw'r hyn sydd yn seiliedig ar ddata. Preifatrwydd yw'r hyn sydd yn seiliedig ar bobl. Er mwyn cadw data yn ddiogel yn yr ymchwil yma, ni fydd unrhyw cyfweiliad yn cael ei recordio ar lafar. Bydd hwn yn lleihau'r nifer o bethau sydd angen gwneud yn y cyfweiliadau. Er mwyn recordio beth sydd yn cael ei ateb ym mhob cyfweiliad, bydd nodiadau yn cael ei cymryd mewn llyfr. Fel bod pob darn o ddata yn ddiogel, trwy cadw cyfrinachedd, bydd y llyfr yn cael ei cadw mewn cwpwrdd gyda clo, fel bod dim mynediad gyda unrhyw un arall at hyn.

Er mwyn cadw preifatrwydd yr ysgolion yn yr ymchwil, ni fydd enwau yn cael ei defnyddio o gwbl. Bydd yr ymchwil dim ond yn defnyddio ffigurau ac atebion y cwestiynau. Ni fydd angen defnyddio enwau pobl neu ysgolion yn yr ymchwil yma, ond er mwyn sicrhau preifatrwydd, bydd y canlyniadau yn cofnodi enwau CADY ac ysgolion yn gyfrinachol a ryddhau canlyniadau a wybodaeth yn ddienw. Trwy cynnal yr ymchwil yma, mae yna sawl risg posib o ran moesegau. Mae'n bosib bod risgau gwahanol i'r cyfranogwyr, yr ymchwilwyr a hefyd i'r prifysgol. Yn gyntaf, bydd angen sicrhau bod dim un enw ysgol yn cael ei ryddhau. Caiff y risg yma ei luniaru trwy cadw enwau'n ddienw.

Gall problemau digwydd os nad yw'r ymchwil yn defnyddio data cywir. Enghraifft o sefyllfa le digwyddodd hyn yw'r ymchwil yn seiliedig ag Awtistiaeth a phigiadau. Cafodd yr ymchwil yma ei gyhoeddi, er roedd y gwybodaeth yn aghywir, ac yn tro, mae rhieni newydd dal i fod yn gwrthod imiwneiddio'u plant oherwydd y wybodaeth yma, sydd yn arwain at plant yn marw oherwydd nad ydynt wedi amddiffyn rhag yr heintiau yma. Fel bod hwn ddim yn digwydd, bydd angen edrych ar canlyniadau sawl gwaith er mwyn sicrhau bod popeth yn gywir cyn cyhoeddi.

Bydd yr ymchwil yma'n edrych ar y fathau gwahanol o ymyrraeth sydd yn cael ei defnyddio. Bydd angen ymchwilio mewn i rhain er mwyn gweld os yw ysgolion yn gwneud yr un pethau neu peidio. Os nad oes unrhyw gwybodaeth ar fath o ymyrraeth, mae'n debyg bod angen ymchwilio er mwyn cadarnhau taw strategaeth gwahanol yw hi er mwyn cyhoeddi gwybodaeth cywir. Os caiff y wybodaeth anghywir ei gyhoeddi, gall hyn cael effaith ar y prifysgol yn ogystal a'r ymchwilwr.

Mae gan y Prifysgol polisiau penodol ar gyfer ymchwil. Gelwir hyn y côd ymddygiad. Er mwyn gwneud gwaith ymchwil, mae'n bwysig cadw at y côd ymddygiad oherwydd pan caiff ymchwil ei gwneud fel rhan o'r prifysgol, mae'r ymchwil yn cynrychioli'r prifysgol. Trwy darparu ymchwil anghywir, ni fydd hyn yn gwneud i'r prifysgol i edrych yn dda, a gall hyn effeithio statws y prifysgol. Yn ôl Côd Ymddygiad Prifysgol Cymru Y Drintod Dewi Sant (PCYDDS) (2022), dylai pob agwaith o ymchwil fod yn onest, o ran data, ymchwil, methodoleg, cyflwyniadau, cydnabod gwaith pobl arall ac wrth cyfleu dehongliadau dilys a gwneud honiadau cyflawn yn seiliedig ar canfyddiadau ymchwil.

Yn ogystal ag onestrwydd, mae côd ymddygiad PCYDDS hefyd yn cynnwys trylwredd ac atebolrwydd. Mae hi'n ddisgwyliedig i ymchwilwyr cadw'n unol â normau a safonau disgyblu cyffredinol, trwy cynnal ymchwil yn defnyddio strategaethau, methodoleg a fframweithiau addas i'r pwnc, a thrwy cyfathrebu'r canlyniadau ac atebion ymchwil. Hefyd, mae côd ymddygiad PCYDDS yn canolbwyntio ar atebolrwydd. Dywed y côd bod gan atebolrwydd i'r prifysgol meithrin amgylchedd ymchwilio lle mae'r staff a'r disgyblion yn cael eu galluogi i berthyn y proses ymchwil. Hefyd, dywed bod angen i'r rhai sy'n ymgysylltu a'r ymchwil hefyd sicrhau bod ymchwilwyr yn atebol pan mae ymddygiad yn cwmpo dan y safonau sydd wedi gosod gan y côd ymddygiad.

Rhestr Cyfeirnod

Andy Stapleton (2024), *3 crucial steps to writing a methodology [The Easy Guide]* Ar gael ar: <https://youtu.be/cEiZNZwNyV4?si=isB1oh2dF3DYZGax> [Wedi gwyllo 13 Awst 2025].

Australian Bureau of Statistics (dim dyddiad), *Quantitative and Qualitative Data*. Ar gael ar: <https://www.abs.gov.au/statistics/understanding-statistics/statistical-terms-and-concepts/quantitative-and-qualitative-data> [Wedi darllen 13 Awst 2025].

Confensiwn Cenhedlaeth Unedig ar Hawliau Plant (dim dyddiad), *CCUHP- Hawliau Plant*. Ar gael ar <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> [Wedi darllen 21 Mai 2025].

Cyngor Abertawe (2023), *ADY- Gweithwyr proffesiynol sy'n gallu helpu*, Ar gael at: <https://www.abertawe.gov.uk/adyProffesiynolCADY?lang=cy> [Wedi darllen 12 Mai 2025].

Cyngor Abertawe (2023), *ADY- Y Blynyddoedd Cynnar*, Ar gael ar: <https://www.abertawe.gov.uk/adyYBlynyddoeddCynnar?lang=cy> [Wedi darllen 25 Mawrth 2025].

Cyngor Casnewydd (dim dyddiad), *Additional Learning Needs (ALN)*, Ar gael ar: <https://www.newport.gov.uk/schools-and-learning/support-schools/additional-learning-needs-aln> [Wedi darllen 12 Mai 2025].

Department of Education (dim dyddiad), *Research with children and young people: The importance of active participation in research*. Ar gael ar: <https://user-research.education.gov.uk/guidance/ethics-and-safeguarding/research-with-children-and-young-people> [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Education Endowment Foundation (2021), *Teaching Assistant Interventions*. Ar gael ar <https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/teaching-learning-toolkit/teaching-assistant-interventions> [Wedi darllen 12 Mai 2025].

Griffiths M, (2024) *What can EPs do to support Welsh-Medium children and young people with additional learning needs*. Ar gael ar: <https://edpsy.org.uk/blog/2024/what-can-eps-do-to-support-welsh-medium-children-and-young-people-with-additional-learning-needs/> [Wedi darllen 13 Awst 2025].

Howard K et al. (2020) *Practitioners perspectives and experiences of supporting bilingual pupils on the autism spectrum in two linguistically different educational settings*; Special Section: Right-wing populism and education: Interrogating politics,

policy and pedagogic resistance; 47(2). [<https://doi.org/10.1002/berj.36620>] [Wedi darllen 22 Mai 2025].

Howard K *et al.* (2020) *Practitioners perspectives and experiences of supporting bilingual pupils on the autism spectrum in two linguistically different educational settings*; Special Section: Right-wing populism and education: Interrogating politics, policy and pedagogic resistance; 47(2). [<https://doi.org/10.1002/berj.36620>] [Wedi darllen 13 Awst 2025]. 2.

Lylte S (2001), *Ethical Issues in Practitioner Research*. (tud. xv), Efrog Newydd. The Teachers College [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Llywodraeth Cymru (2016), *Getting informed consent for user research*. Ar gael ar: <https://www.gov.uk/service-manual/user-research/getting-users-consent-for-research> [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Llywodraeth Cymru (2024), *Welsh language data from the Annual Population Survey: October 2022 to September 2023*. Ar gael ar: <https://www.gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-october-2022-september-2023> [Wedi darllen 13 Awst 2025].

Llywodraeth Cymru (2025), *Schools' Census results: January 2025*. Ar gael ar: <https://www.gov.wales/schools-census-results-january-2025-html> [Wedi darllen 13 Awst 2025].

National Library of Medicine (2022) *Qualitative data*. Ar gael ar: <https://www.nlm.gov/guides/data-glossary/qualitative-data> [Wedi darllen 13 Awst 2025].

NSPCC, (2023), *Research with children: ethics, safety and promoting inclusion*. Ar gael ar: <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/briefings/research-with-children-ethics-safety-promoting-inclusion> [Wedi darllen 15 Awst 2025].

PCYDDS, (2022), *Côd Ymddygiad Moeseg Ymchwil a Chywirdeb*. Ar gael ar: <https://www.google.com/url?sa=t&source=web&rct=j&opi=89978449&url=https://www.uwtsd.ac.uk/media/2041/download%3Fattachment&ved=2ahUKEwiomNbyjJKPAXWLWEEAHRbsFVQQFnoECBcQAQ&usq=AOvVaw2dqYdHyxRvluouJ30mmQT8> [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Prifysgol Stirling (dim dyddiad), *Understanding Ethics: definition of ethics*. Ar gael ar: <https://www.stir.ac.uk/research/research-ethics-and-integrity/understanding-ethics/#:~:text=Definition%20of%20ethics&text=Research%20ethics%20involves%20the%20application,and%20the%20regulation%20of%20research>. [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Roberts-Holmes G (2018), *Doing your early years research project: a step-by-step guide*. Llundain. Sage [Wedi darllen 13 Awst 2025].

The Open University (dim dyddiad) *Introducing Social Work: Observing children's development*. Ar gael ar:
<https://www.open.edu/openlearn/mod/oucontent/view.php?id=99099§ion=2.2>
[Wedi darllen 13 Awst 2025].

UK Research and Innovation, (2024), *Consent: What is freely given informed consent?* Ar gael ar: <https://www.ukri.org/councils/esrc/guidance-for-applicants/research-ethics-guidance/consent/> [Wedi darllen 15 Awst 2025].

Yamasaki a Luk (2018), *Eligibility for special education in elementary school: The role of diverse language experiences, Language, Speech, and Hearing Services in Schools*, 49(4). (tud 1-2) [<https://doi.org/10.1002/berj.3662>] [Wedi darllen 29 Mai 2025].

Yamasaki a Luk (2018), *Eligibility for special education in elementary school: The role of diverse language experiences, Language, Speech, and Hearing Services in Schools*, 49(4). (tud [<https://doi.org/10.1002/berj.3662>] [Wedi darllen 29 Mai 2025]. 2.